

# Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

## SoNaRR2020 Cofrestru dŵr croyw pwysau a chyfleoedd allweddol

Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Terfynol

# Gwybodaeth am Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Tystiolaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein strategaethau, penderfyniadau, gweithrediadau a chynghor i Lywodraeth Cymru ac eraill wedi'u tanategu gan dystiolaeth gadarn sydd o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd newidiol.

Byddwn yn gwireddu'r weledigaeth hon drwy'r isod:

- Cynnal a datblygu sgiliau arbenigol technegol ein haelodau staff;
- Diogelu ein data a'n gwybodaeth;
- Sicrhau rhaglen ragweithiol o waith dystiolaeth sydd â digon o adnoddau;
- Parhau i adolygu ac ychwanegu at ein dystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau yr ydym yn eu hwynebu; a
- Rhannu ein dystiolaeth mewn modd agored a thryloyw.

Teitl: **SoNaRR2020 Cofrestru dŵr croyw pwysau a chyfleoedd allweddol**

Adolygiadau gan Gymheiriaid: Adolygiad gan gymheiriaid mewnol ac allanol

Cyfyngiadau: Dim

# Cynnwys yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

Mae'r ddogfen hon yn un o grŵp o gynhyrchion sy'n ffurfio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020). Dyma'r gyfres lawn o gynhyrchion:

**Crynodeb Gweithredol.** Rhagair, Cyflwyniad, Crynodeb a Chasgliadau. Cyhoeddwyd fel cyfres o dudalennau gwe ym mis Rhagfyr 2020

**Y Cofrestrau Adnoddau Naturiol.** Ysgogwyr, Pwysau, Effeithiau a Chyfleoedd i Weithredu ar gyfer wyth Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ac fel ffeithlun rhyngweithiol ym mis Rhagfyr 2020

**Asesiadau yn erbyn pedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Rhagfyr 2020:

Nod 1 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Nod 2 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwylidig ac anrhagweledig

Nod 3 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae gan Gymru leoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag peryglon amgylcheddol

Nod 4 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyfrannu at economi adfywiol, cyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy

**Asesiad o Fioamrywiaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020.** Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Asesiadau yn ôl Ecosystem Eang.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ymylon Arfordirol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ffermdir Caeedig

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Dŵr Croyw

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Yr Ardal Forol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Mynyddoedd, Gweundiroedd a Rhosydd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Coetiroedd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Trefol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Glaswelltir Lled-naturiol

**Asesiadau yn ôl Thema Drawsbynciol.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ansawdd Aer

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Y Newid yn yr Hinsawdd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Ynni

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Priddoedd a Defnydd Tir

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Gwastraff

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Dŵr

**Anghenion tystiolaeth diweddaredig yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.** Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Acronymau a Rhestr Termau.** Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 a diweddarwyd ym mis Mawrth 2021

**Dyfyniad argymelledig ar gyfer y rhan hon o'r adroddiad:**

Cyfoeth Naturiol Cymru. 2020. SoNaRR2020 Cofrestru dŵr croyw pwysau a chyfleoedd allweddol. Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Hawlfreintiau

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan [drwydded Llywodraeth Agored](#)

Oni nodir yn wahanol, mae'r holl graffiau, mapiau, tablau a delweddau eraill yn © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys ffin Cymru:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. © Hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2020. Rhif trwydded 100019741 yr Arolwg Ordnans.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys agweddau morol:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl © y Goron Brydeinig ac OceanWise Ltd, 2020. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded EK001-20120402. Ni ddylid eu defnyddio at ddibenion mordwyaeth.

# Dŵr croyw

## Cofrestr Adnoddau Naturiol

### Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020

Mae'r Cofrestrau Adnoddau Naturiol yn allbwn pwysig Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Eu pwrpas yw distyllu'r pwysau a chyfleoedd allweddol a nodwyd yn y penodau a darparu asesiad hygyrch o'r rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol.

Mae Cofrestr Adnoddau Naturiol Dŵr Croyw yn cynnwys dwy ddogfen ychwanegol:

1. SoNaRR2020 Cofrestr dŵr croyw asesiad o SMNR
2. SoNaRR2020 Register freshwater evidence

Tabl 1 Prif sbardunau, pwysau ac effeithiau ar yr ecosystem dŵr croyw

Sbardunau	Pwysau	Effeithiau
<b>Y newid yn yr hinsawdd</b>	1. Newid ym mhatrymau'r tywydd	<p>1.1. Ymyrryd â chylchoedd bywyd, gan gynnwys achosi marwolaeth organebau dyfrol yn uniongyrchol. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>1.2. Llifau/lefelau dŵr annigonol i gynnal ansawdd dŵr, bioamrywiaeth ddyfrol ac iechyd afonydd. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>1.3. Cynnydd yn erydiad ac ansefydlogrwydd sianeli afonydd o ganlyniad i ddigwyddiadau llif uchel mwy aml a mwy eithafol. Sgwrio cynefinoedd a golchi rhywogaethau ymaith. Gostyngiad mewn ansawdd dŵr yn sgil llwyth gwaddod cynyddol. Asesiad hyder: CANOLIG Nod 2 a 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>
<b>Y newid yn yr hinsawdd</b>	2. Cynnydd yn nhymheredd dŵr.	2.1. Newid yn nymheredd poblogaethau o rywogaethau o ganlyniad i gynnydd yn nhymheredd dŵr. Asesiad hyder: UCHEL

		<p>Nod 1 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>2.2. Yn fwy agored i effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol a mwy o debygolrwydd y bydd rhywogaethau estron goresgynnol yn sefydlu yn sgil cynnydd yn y tymheredd. Asesiad hyder: UCHEL Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>
<b>Llygredd</b>	3. Llygredd aer	<p>3.1. Asideiddio afonydd a llynnoedd. Asesiad hyder: UCHEL Nod 2 a 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>
<b>Llygredd</b>	4. Llygredd dŵr	<p>4.1. Llwythau maethynnau a gwaddodion gormodol mewn afonydd a llynnoedd sydd, yn eu tro, yn tarfu ar brosesau ecolegol. Llygredd mewn dyfroedd croyw gan fetelau, plastigion a chyfansoddion anthropogenig (e.e. PFAs a PBDEs) a all gronni'n fiolegol yn y gadwyn fwyd hyd at grynodiadau gwenwynig. Asesiad hyder: UCHEL Nod 2 a 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>
<b>Newid yn nefnydd tir</b>	5. Addasiadau ffisegol	<p>5.1. Dirywiad yng ngwydnwch ecosystemau dŵr croyw o ganlyniad i'r ymyrraeth â phrosesau ffisegol naturiol. Asesiad hyder: UCHEL Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>5.2. Rhwystro symudiad rhywogaethau mewn systemau afonydd (e.e. rhwystrau i fudo pysgod) ac ymyrraeth â symudiad a chyflenwad gwaddodion. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>5.3. Colli cynefin yn uniongyrchol o ganlyniad i ddifrod ffisegol i</p>

		<p>ddyfroedd croyw (e.e. treillio, sythu sianeli, atgyfnerthu glannau/gwelyau afonydd, sianelu).  Aseiad hyder: UCHEL  Nod 1 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>5.4. Colli cysylltedd rhwng afonydd a gorlifdiroedd, a rhwng afonydd a phyllau/llynnoedd, o ganlyniad i addasiadau ffisegol.  Aseiad hyder: UCHEL  Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>
<b>Newid yn nefnydd tir</b>	6. Dwysâd amaethyddol	<p>6.1. Perygl cynyddol o lifogydd.  Aseiad hyder: UCHEL  Nod 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>6.2. Perygl cynyddol o lifogydd.  Aseiad hyder: UCHEL  Nod 2 a 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>6.3. Colli cynefinoedd coridorau torlannol oherwydd diffyg clustogfeydd.  Aseiad hyder: UCHEL  Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>
<b>Newid yn nefnydd tir</b>	7. Datblygiad a seilwaith adeiledig	<p>7.1. Perygl cynyddol o lifogydd.  Aseiad hyder: UCHEL  Nod 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>7.2. Risg gynyddol o lygredd (fel cynnydd yn y llwyth carthion).  Aseiad hyder: UCHEL  Nod 2 a 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>7.3. Colli cynefinoedd a rhywogaethau o ganlyniad i ddifrod ffisegol i ddyfroedd croyw (e.e. colli coridorau torlannol, amaethu a datblygu hyd at ymyl dŵr, sianelu, colli cynefinoedd gorlifdir). (Hyder uchel)</p>



<p><b>Rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefydau</b></p>	<p>8. Rhywogaethau estron goresgynnol</p>	<p>8.1. Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn cystadlu'n well na bioamrywiaeth frodorol, yn cyflwyno clefydau, ac yn ysglyfaethu rhywogaethau brodorol. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>8.2. Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn achosi ansefydlogrwydd strwythurol ar lannau afonydd, yn gallu cynyddu perygl lleol o lifogydd drwy rwystro sianeli, ac yn ymyrryd â mordwyaeth a'r cyflenwad dŵr. Asesiad hyder: UCHEL Nod 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>
<p><b>Gor-ddefnydd</b></p>	<p>9. Gofynion dŵr</p>	<p>9.1. Posibilrwydd o gyfyngu ar yr adnoddau dŵr sydd ar gael pe na chânt eu rheoli'n gynaliadwy. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>9.2. Llifau annigonol i gynnal bioamrywiaeth mewn cyrsiau dŵr ac iechyd afonydd. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>9.3. Mwy o ofyn am drosglwyddo dŵr rhwng dalgylchoedd, a'r effeithiau posibl canlynol y mae hyn yn eu cael ar y cyrff dŵr perthnasol. Asesiad hyder: UCHEL Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>
<p><b>Gor-ddefnydd</b></p>	<p>10. Rheolaeth annigonol</p>	<p>10.1. Arferion aneffeithlon o ddefnyddio dŵr. Asesiad hyder: UCHEL Nod 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>10.2. Y gost o drin dŵr yfed. Asesiad hyder: UCHEL</p>

# Cyfleoedd ar gyfer gweithredu

## Nod 1: Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

**Gwarchod ac adfer ecosystemau dŵr croyw.**

**Gwella gwaith cynllunio tirweddau** fel bod llygredd yn llai tebygol o fynd i afonydd a llynnoedd.

**Datblygu technolegau newydd ar gyfer rheoli llygryddion.**

**Parhau i gyflwyno cynlluniau a strategaethau** (fel Cynlluniau Rheoli Basn Afon, eogiaid a brithyllod môr, llyswennod a misgl perlog yr afon)

**Gwrthdroi'r dirywiad mewn rhywogaethau dŵr croyw mewn perygl difrifol** (fel Back from the Brink Cymru)

**Adfer cysylltedd gorlifdiroedd a chynefinoedd gwlyptir gorlifdir ar raddfa dirwedd.**

**Sicrhau cynnydd sylweddol yn ansawdd a nifer y pyllau ar dir isel.**

**Atal echdynnu graean anghyfreithlon o afonydd.**

**Gwarchod ac adfer ecosystemau dŵr croyw.**

**Ymgymryd â gwaith ymchwil i fesurau effeithlonrwydd dŵr a'u datblygu a'u gweithredu ar draws pob sector.**

**Nodi lle mae gweithgareddau tynnu dŵr sydd wedi'u heithrio'n digwydd er mwyn pennu lleoedd lle gallai'r amgylchedd fod fwyaf agored i niwed.**

**Addysgu a chodi ymwybyddiaeth o ran y cydberthynas rhwng rheoli tir ac ansawdd ecosystemau dŵr croyw, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ymgysylltu â cholegau amaethyddol.**

**Mynd i'r afael ag addasiadau ffisegol i ecosystemau dŵr croyw.**

**Symud at ddull o reoli tir yn gynaliadwy sy'n gwarchod priddoedd ac ansawdd dŵr.**

## Nod 2: Ecosystemau gwydn

**Plannu coridorau torlannol i helpu i wrthbwysu'r cynnydd yn y tymheredd yn y dyfodol a rheoli'r broses o golli pridd/maethynnau yn ystod stormydd.**

**Ailgysylltu afonydd â gorlifdiroedd ar gyfer storio dŵr a charbon**, er mwyn lleihau effeithiau sgwrio ac erydu gormodol yn ystod llifau uchel, a hybu adferiad a chysylltedd cynefinoedd gorlifdir.

**Cefnogi amcanion Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2020) a Pholisi Cynllunio Cymru (TAN15) er mwyn dilyn dull dalgylch o reoli perygl llifogydd.**

**Arddangos ac annog arfer gorau, fel lledaenu'r defnydd a wneir o fesurau rheoli llifogydd naturiol ac ailgysylltu afonydd â'u gorlifdiroedd.**

**Datblygu cynlluniau rheoli afon–gorlifdir integredig sy'n integreiddio cynllunio defnydd tir, bioamrywiaeth a rheoli llifogydd.**

**Cefnogi cynlluniau cenedlaethol fel cynlluniau wrth gefn ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol a chynlluniau gweithredu llwybrau.**

**Cyflwyno prosiectau rheoli rhywogaethau estron goresgynnol cydweithredol ar raddfa dalgylch.**

**Mynd i'r afael ag addasiadau ffisegol i ecosystemau dŵr croyw.**

**Gweithredu mesurau bioddiogelwch gwell drwy brosesau AMP7 ac AMP8 y diwydiant dŵr.**

**Defnyddio gwyddoniaeth dinasyddion i gasglu data ar rywogaethau estron goresgynnol, ac ymgysylltu â'r gymuned er mwyn ymgymryd â gwaith rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.**

**Defnyddio gwyddoniaeth dinasyddion i ddeall, mesur a rheoli problemau dŵr yn well.**

### **Nod 3: Lleoedd iach i bobl**

**Addysgu a chodi ymwybyddiaeth o ran y cydberthynas rhwng rheoli tir ac ansawdd ecosystemau dŵr croyw, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ymgysylltu â cholegau amaethyddol.**

**Gwarchod ac adfer ecosystemau dŵr croyw.**

**Cefnogi amcanion Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2020) a Pholisi Cynllunio Cymru (TAN15) er mwyn dilyn dull dalgylch o reoli perygl llifogydd.**

**Arddangos ac annog arfer gorau, fel lledaenu'r defnydd a wneir o fesurau rheoli llifogydd naturiol ac ailgysylltu afonydd â'u gorlifdiroedd.**

### **Nod 4: Economi adfywiol**

**O'r bennod Effeithlonrwydd Dŵr  
Labelu dŵr ar gyfer offer dŵr.**

**O'r bennod Effeithlonrwydd Dŵr  
Lleihau gollyngiadau nad ydynt yn ymwneud â'r prif gyflenwad drwy fentrau codi ymwybyddiaeth.**

O'r bennod Effeithlonrwydd Dŵr

**Annog storio oddi allan i'r prif gyflenwad, cynaeafu dŵr glaw, ac ailgylchu dŵr llwyd. Er enghraifft, storio dŵr ar ffermydd ar gyfer dyfrhau.**

**Nodi cyfleoedd ar gyfer cynlluniau trosglwyddo dŵr er mwyn cyfrannu at economi adfywiol ar raddfa'r DU gyfan. Er enghraifft, defnyddio dŵr o Gymru i gynnal cnydau â'r yn Lloegr ac felly gwella diogelwch bwyd y DU; defnyddio cronfeydd arian o gynlluniau trosglwyddo dŵr i hybu gwaith adfer ecosystemau dŵr croyw.**

**Cyfleoedd i ôl-osod cynlluniau ynni dŵr i seilwaith rheoli dŵr sydd eisoes yn bodoli.**

**Symud i ddull o reoli tir yn gynaliadwy sy'n gwarchod priddoedd ac ansawdd dŵr.**

**Buddsoddi mewn technolegau newydd sy'n gwarchod priddoedd ac ansawdd dŵr.**

**Ymgymryd â gwaith ymchwil a datblygu mewn perthynas â rheoli llygryddion anthropogenig yn eu tarddiad, e.e. atal microblastigion rhag mynd i'r amgylchedd.**

**Arddangos ac annog arfer gorau, fel lledaenu'r defnydd a wneir o fesurau rheoli llifogydd naturiol ac ailgysylltu afonydd â'u gorlifdiroedd.**